## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (MAN I'R GOGLEDD O LANRHYSTUD, CEREDIGION) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, mewn man i'r gogledd o Lanrhystud, Ceredigion.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r U1203, Carrog, i bwynt 150 o fetrau i'r gogledd o'r fynedfa i Berth Rhys Farm.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar hyd y B4337 tua'r de o Lanrhystud i Cross Inn, y B4577 tua'r dwyrain i Dyncelyn a'r A485 tua'r gogledd-orllewin drwy Ledrod a Llanilar i ailymuno â'r A487 tua'r gogledd/de yn Llanfarian ac i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 6 Tachwedd 2023. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) rhwng 6 a 24 Tachwedd 2023 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A487 TRUNK ROAD (NORTH OF LLANRHYSTUD, CEREDIGION) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road north of Llanrhystud, Ceredigion.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the A487 trunk road that extends from its junction with the U1203, Carrog, to a point 150 metres north of the access to Berth Rhys Farm.

The alternative route for northbound vehicles is via the southbound B4337 from Llanrhystud to Cross Inn, eastbound B4577 to Tyncelyn and north-westbound A485 through Lledrod and Llanilar to rejoin the north/southbound A487 at Llanfarian: vice versa for southbound vehicles.

The Order comes into force on 6 November 2023. The temporary prohibition is expected to operate intermittently overnight (19:00 – 06:00 hours) from 6 – 24 November 2023 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government